

# SL(5)745 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn darparu bod yn rhaid i awdurdod perthnasol, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i ba mor ddymunol fyddai eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i dylunio i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol ("y Ddyletswydd").

Disgwylir i'r Ddyletswydd ddod i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 drwy orchymyn cychwyn. Bydd y Rheoliadau hyn, os cânt eu cymeradwyo, yn dod i rym ar 30 Mawrth 2021. Caiff y Ddyletswydd ei chefnogi gan ganllawiau statudol sydd hefyd wedi'u gosod gerbron y Senedd ac a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â chychwyn y Ddyletswydd.

Bydd adran 1(3) o Ddeddf 2010 yn rhestru'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru y bydd y Ddyletswydd yn gymwys iddynt, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Gweinidogion y Goron ac adrannau'r Llywodraeth. Mae adran 2(4)(a) o Ddeddf 2010 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i ychwanegu awdurdodau perthnasol yng Nghymru at y rhestr yn adran 1. Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu'r canlynol at y rhestr o awdurdodau perthnasol yng Nghymru y bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt:

- Gweinidogion Cymru;
- cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ar wahân i Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn ystyr adran 8A(5)( ) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006);
- awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;
- awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar gyfer ardal yng Nghymru;



- Awdurdod Refeniw Cymru.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mewn perthynas ag adolygiad ôl-weithredu o'r Rheoliadau, mae'r Pwyllgor yn nodi bod paragraff 10.4 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

*Ac ystyried y llu o ganlyniadau a ragwelir o ganlyniad i'r Ddyletswydd, bydd rhaglen o weithgareddau i fonitro ac i werthuso'r uchod yn cael ei datblygu i gyd-fynd â gweithgareddau allweddol, a bydd ystod o ddulliau ymchwil a gwerthuso'n cael eu hystyried, yn dibynnu ar natur y data sydd eu hangen.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Asesiad Effaith Integredig (AEI) llawn ar y Rheoliadau wedi ei gwblhau. Cyhoeddwyd adrannau 1, 3, a 7 ar [wefan Llywodraeth Cymru](#) ar 23 Chwefror yn dilyn oedi byr o ganlyniad i wall technegol. Mae adran 7.2 o'r AEI yn crynhoi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r adrannau sy'n weddill o'r AEI ar gael ar gais fel mater o drefn.



## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

